Gweddi wrth wynebu Coronafeirws

Dduw iechyd a gobaith, yn Iesu Grist yr wyt wedi addo cwrdd â ni ynghanol ein pryderon a'n poenau. Edrych arnom mewn trugaredd wrth i ni wynebu bygythiad Coronafeirws.

Gweddïwn dros bawb sydd wedi eu heffeithio gan y feirws. I'r rhai sydd wedi eu heintio, rho nerth i'w ymladd a bydded iddynt adennill cryfder a iechyd. I'r teuluoedd sy'n gofidio am ddioddefwyr, rho gysur a gobaith. I'r rhai sy'n fregus, neu sy'n teimlo mewn perygl, tawela eu hofn a'u pryder. Gweddïwn dros bob un sy'n gweithio i ddelio â'r feirws a'i effeithiau.

Diolchwn am feddygon, nyrsys, gofalwyr a gweithwyr iechyd, ac am eu gofal a'u tosturi. Cadw hwy'n ddiogel ac yn iach.

Diolchwn am wyddonwyr ac ymchwilwyr meddygol, a phob un sy'n gweithio'n ddyfal i ddarganfod brechlyn i atal y feirws. Goleua eu meddyliau a rho iddynt y doethineb a'r ddealltwriaeth i lwyddo.

Gweddïwn dros ein harweinwyr a'r rhai sydd yn eu cynghori. Bydded iddynt weithredu'n ddoeth er lles pawb, a rhoi i'r gwasanaeth iechyd yr adnoddau a'r cyllid angenrheidiol i sicrhau'r gofal gorau er hyrwyddo gwellhad llwyr a buan.

Ar yr adeg hon o ansicrwydd a chonsyrn byd-eang boed i'th Ysbryd ein helpu ni i gyd i ddangos ein gorau ac nid ein gwaethaf.

Gwared ni o bob hunanoldeb, o orymateb ac o godi bwganod. Iachâ'r ofn sydd mor aml yn rhwystro cenhedloedd rhag gweithio â'i gilydd ac sy'n atal cymdogion rhag helpu ei gilydd. Gwna ni'n ymwybodol o'n dibyniaeth arnat ti ac ar ein gilydd, a'r nerth a ddaw o fod yn un corff ynot ti.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu, yr un a aeth o amgylch yn iacháu pob afiechyd a llesgedd, yr un sydd trwy ei gleisiau yn dwyn iachâd i'r byd.

Amen.